CYRSIAU HYFFORDDIANT YR ANNIBYNWYR

Addoliad Cristionogol

PWRPAS ADDOLI

Bydd y Cwrs hwn yn trafod dulliau a chyfryngau addoliad, ac y mae'n briodol i ni holi ar y cychwyn felly beth yw diben a phwrpas addoli Cristionogol?

Pe bai'n rhaid disgrifio'r pwrpas hwnnw o fewn gofod un frawddeg fer, gellid ddweud mai:

"PWRPAS ADDOLI YW GOGONEDDU DUW"

Sef cynnal cymdeithas ysbrydol ddiolchgar â'r Duw Tragwyddol sydd wedi creu'r nefoedd a'r ddaear (Gen 1:1), creu'r ddynoliaeth (Gen 1:17), sy'n gwaredu ei bobl (Eseia 52: 9-10), sy'n gwneud cyfamod â nhw (Deut 29: 12-15; Jeremeia 31: 31-34), ac sy'n cynnig gwynfyd i'w bobl (Math 5: 3-12; 1 Pedr 1: 3-5), a'r Duw sy'n dal i lefaru wrth ei bobl (Salm 95: 7b). Yn wir y mae adnodau 6 a 7 yn Salm 95 yn crynhoi pwrpas addoli i'r dim, ac yn adnodau addas iawn i'w llefaru ar ddechrau pob oedfa addoli.

> "Dewch, addolwn ac ymgrymwn, plygwn ein gliniau gerbron yr Arglwydd a'n gwnaeth. Oherwydd ef yw ein Duw, a ninnau'n bobl iddo a defaid ei borfa; heddiw cewch wybod ei rym, os gwrandewch ar ei lais".

Mae addoli felly yn golygu plygu gerbron Duw a derbyn gan Dduw. Wrth fanylu ynglŷn â nodweddion yn ei bywydau ni fel addolwyr gallwn nodi'r canlynol:

A. DERBYN RHYDDHAD DWYFOL

Mewn addoliad adnabyddir Crist fel cyfryngwr Duw i effeithio iachawdwriaeth dynion, ac y mae'r iachawdwriaeth honno'r cynnwys tair elfen.

1) CYFIAWNHAD

   Y mae Crist yn ein gosod ni'n iawn â Duw; yn ein cyfiawnhau ger ei fron ef. (Gweler Rhuf 3: 24-25).

2) SANCTEIDDHÂD

   Mae'n ein gosod ni o'r neilltu yn bobl briodol i Dduw. (Gweler 1 Pedr 2: 9-10).

3) PRYNEDIGAETH

   Mae'n prynu ni'n rhydd o gaethiwed pechod (gweler 1 Cor 1: 30).

Y mae ffydd, ymgysegriad ac edifeirwch yn nodweddion hanfodol mewn addoliad ac yn arwain, trwy ras Duw yng Nghrist at ryddid ysbrydol:

"Fe'ch galwyd chwi, ... i ryddid" (Gal 5:13).

"Y sawl sy'n ymffrostio, ymffrostied yn yr Arglwydd" (1 Cor 1:31).

"A chan mai dilyn Iesu Grist yr ydym, nid byrdwn llethol yw ymsancteiddio ond offrwm diolch i'r Gwaredwr am ein rhyddhau ni i wneuthur Ewyllys Duw." (R Tudur Jones, *Gweddïo* 1992).

B) MEITHRIN CYMDEITHAS YR EGLWYS

Y mae gwir addoliad Cristionogol yn golygu llawer mwy nag offrymu gweddïau a mawl i Dduw. Mae'n golygu byw oddi fewn i gymdeithas yr Eglwys ac y mae'n golygu cysegru bywyd yn gyfan i wasanaeth Duw. Gweithred gyhoeddus yw addoliad yr eglwys, ac y mae'n weithred gymdeithasol hefyd. Y mae'r Eglwys yn gymdeithas yr ysbryd sy'n derbyn rhoddion yr Ysbryd Glân.

(Gweler Actau 2: 1-47; 1 Cor 12: 12-26; Gal 5: 16-26).

"Ond ffrwyth yr ysbryd yw cariad, llawenydd, tangnefedd, goddefgarwch, caredigrwydd, daioni, ffyddlondeb, addfwynder, hunanddisgyblaeth" (Gal 5: 22).

Rhaid i'r addolwr Cristionogol arfer y doniau ysbrydol hyn oddi fewn i fywyd yr Eglwys, a'u harfer nhw yng nghylch y credinwyr, wyneb yn wyneb â phobl eraill.

"Ni ŵyr y Beibl ddim am grefydd unigolyddol …. Nid oes santeiddrwydd onid santeiddrwydd cymdeithasol" (John Wesley).

CYMDEITHAS Y SAINT YW'R EGLWYS GRISTNOGOL, AC Y MAE HYNNY'N GOLYGU BOD POB AELOD UNIGOL I YMATEB Â'R CYFAN SYDD YNDDO I GYMDEITHAS GYFAN Y SAINT. Lle'r arferai'r crefydda defodol Iddewig aberthu neu gysegru anifail ar allor y deml i Dduw (ond gweler Micha 6: 6-8 am y feirniadaeth broffwydol ar hyn), mae'r addolwr Cristionogol cywir yn offrymu neu'n cysegru ei fywyd yn gyfan i Dduw: "Am hynny, yr wyf yn ymbil arnoch, frodyr, ar sail tosturiaethau Duw, i'ch offrymu eich hunain yn aberth byw, sanctaidd a derbyniol gan Dduw. Felly y rhowch iddo addoliad ysbrydol" (Rhuf 12:1). Dyma'r math o addoliad sy'n adeiladu'r gymdeithas Gristionogol. "Cymer, Arglwydd, f'einioes i...".

Nodau traddodiadol yr Eglwys Gristionogol yn ôl Credo Cyngor Caergystennin yn 381 O.C. yw Ei Hunod, ei Sancteiddrwydd, ei Chatholigrwydd a'i Hapostoligrwydd.

C) CYFLAWNI EWYLLYS DUW YN Y BYD

Mae cymdeithas yr Eglwys yn Gymdeithas ar wahân i'r byd, ond nid mewn ystyr elitaidd. Mae hi'n gymdeithas sy'n ymwybodol o'r ffaith ei bod hi'n meddu ar freintiau cwbl arbennig, ond nid ei phwrpas hi yw cadw'r breintiau hynny'n ddirgel iddi hi ei hun, ond yn

hytrach eu rhannu ag eraill ar air ac mewn gweithred. (Gweler 1 Cor 2: 1-7). Os yw addoli Duw yn golygu plygu a derbyn i'r Cristion, y mae hefyd yn golygu codi a gwasanaethu:

> "Yr Arglwydd dy Dduw ac addoli, ac ef yn unig a wasanaethi" (Math 4: 10).

Mae'r ymwneud Cristionogol â'r byd yn ymwneud cenhadol am fod Crist eisiau i bobl eraill gyfranogi o fendithion tragwyddol Duw, ac am eu bod nhw am weld Tangnefedd Duw yn meddiannu'r ddaear.

"Ond nyni, nid ysbryd y byd a dderbyniasom, ond yr ysbryd sydd oddiwrth Dduw" (1 Cor 2: 12). "Gweler dy ewyllys, ar y ddaear fel yn y nef" (Math 6: 10).

TREFNU OEDFA

Ystyr y gair “oedfa” yw “man i gadw oed”, “man cyfarfod”. Wrth ddod i’r oedfa deuwn, nid yn unig i gyfarfod â’n gilydd, ond i gyfarfod â Duw. Diogelir yr ystyr hwn hyd heddiw yn idiom y De, “mynd i’r cwrdd”. Gair arall am oedfa yw “gwasanaeth”. Arferai llawer mab a merch o Gymru fynd “i wasanaethu” mewn tai bonedd yn Lloegr ar ddechrau’r ganrif ddiwethaf. Mynd i gyflawni dyletswydd neu orchwylion i feistr fel gweision neu forwynion yr oeddent. Yr ystyr hwn o roi i Dduw ein dyletswydd (“dyled-swydd”) yw’r hyn a fynegir yn y gair “gwasanaeth”. Y ddwy wedd hon, dod i bresenoldeb Duw a rhoi iddo ei haeddiant mewn mawl a diolch, yw pwrpas oedfa addoliad.

Yn y ganrif hon dirywiodd y syniad syml hwn yn enbyd. Aeth crefydd yn fater preifat ac edrychir ar oedfa fel man i fodloni dyheadau personol. Mynychir oedfa er mwyn ***cael***. Mesurir llwyddiant oedfa yn ôl “faint a gawn ynddi”. Llygriad trist ar ein traddodiad addolgar yw hwn. Fel dywedodd W B Griffiths yn Rhagymadrodd i’r Llyfr Gwasanaeth yr Annibynwyr (1962):

“Gosodwn ein hunain yng nghanol yr addoliad a throi Duw yn wasanaethwr i’n hanghenion”.
Llyfr Gwasanaeth tt. V a ti.

Ni ddylai unrhyw beth amharu ar y ffaith syml mai pwrpas oedfa yw dathlu, trwy amrywiaeth o ffyrdd, bresenoldeb yr Arglwydd Iesu Grist ein Hun gyda’i bobl trwy rym yr Ysbryd Glân. Am ei fod ef yn bresennol dylid ymdrechu rhoi y gorau Iddo. “Oherwydd lle mae dau neu dri wedi dod ynghyd yn fy enw i, yr wyf yno yn eu canol “ (Math 18:20). Dylem ddod i oedfa yn ddisgwylgar yn yr hyder mai cyfarfod â Christ yr ydym gan ymdrechu rhoi o’n gorau Iddo, hyd yn oed pe na bai ond dau neu dri yn bresennol. Moliannu Duw am ei ddaioni ym mhresenoldeb ei fab yw braint aruchel gwasanaeth addoliad.

Nid ychwanegu at ogoniant Duw a wneir mewn oedfa ond creu ymateb ffyddlon yn ein calonnau i’w Air mewn cenhadaeth a gwasanaeth i’r byd. Ni ellir ysgaru, am hynny, yr hyn a wneir ar y Sul oddi wrth ein bywydau weddill yr wythnos. Dwy ochr yr un geiniog yw’r gwasanaeth a rown i Dduw yn ein bywydau bob dydd a’r gwasanaeth a rown Iddo ar y Sul. “Gellir edrych ar ein gwasanaethau addoli fel cylch llai yng nghanol y cylch ehangach hwn. Y cylch llai yw anadl yr Eglwys” (Llyfr Gwasanaeth tt.v). Dylai gwir addoliad ein diogelu rhag y bietistiaeth sy’n canoli’r weithred addolgar ar ein profiadau ni yn unig. “Y mae addoli yn peidio â bod yn addoli os esgeulusir y byd a gwadu ein cyfrifoldeb amdano” (E Stanley John, *Beth yw Addoli*? - Tud 5).

I gyflawni’r amcanion hyn rhaid i’r gynulleidfa a’r pregethwr roi eu hunain o dan lywodraeth Gair Duw. Nid caethiwed mo hynny ond rhyddid a chyfrifoldeb. Rhyddid am fod gair Duw ynghyd â’r Ysbryd Glân yn rhy ddeinamig i’w parlysu mewn unffurfiaeth. Dyma un o’n hegwyddorion canolog fel Ymneilltuwyr. Cyfrifoldeb i iawn ddefnyddio ein rhyddid ydyw. Efallai mai ein perygl mwyaf heddiw yw ofni defnyddio ein rhyddid wrth addoli ac o

ganlyniad aeth ein gwasanaethau yn ffurfiol a marwaidd. (Gwel. Llyfr Gwasanaeth 1962 td. viii).

I grynhoi, dyfynnir o Ragymadrodd llyfr ar addoli a gyhoeddwyd ar gyfer eglwysi Lutheraidd yr Almaen:

"Ymgynnull y gynulleidfa ar alwad ac ar addewid Duw er mwyn cael y sicrwydd, trwy'r Gair a'r Sacramentau, o bresenoldeb ei Harglwydd. Lle bynnag y pregethir Gair Duw yn ei burdeb ac y gweinyddir y Sacramentau mewn ufudd-dod i orchymyn Crist, y mae'r Arglwydd yn bresennol ac yn weithredol. Yno mae'r Ysbryd Glân yn gorchymyn, yn bywhau ac yn adeiladu'r gynulleidfa. Yno hefyd y dwg y gynulleidfa ei gweddïau o ymbil, eiriolaeth a diolch gerbron Duw. Rhydd ei mawl i Dduw yn ei hemynau a chyflwyna iddo ei rhoddion aberthol. Yr enw a roddir ar y weithred hon, o dan lywodraeth Duw, yw addoli. Yn ei haddoliad unir y gynulleidfa â'r cwmni sydd gerbron gorseddfainc Duw. Ynghanol y byd disgwylia ddyfodiad ei Harglwydd". (Dyfynnir gan E Stanley John, *Beth yw Addoli*, tud 6 allan o gyfrol Wilhelm Hahn, *Worship and Congregation*, 1963).

TREFN YR OEDFA

Wrth addoli y mae trefn glir a fframwaith gadarn yn gymorth mawr. Y mae'n diogelu urddas y weithred ac yn gymorth i'r gynulleidfa symud o gam i gam trwy'r gwasanaeth. Y demtasiwn fwyaf y mae'n rhaid ei osgoi yw'r demtasiwn o feddwl nad yw'r gwasanaeth y Sul nesaf yn cyfrif rhyw lawer. Efallai mai mewn capel bach di-nod yn y wlad yr ydym: "Does gen i fawr o amser i baratoi, ond pa wahaniaeth ni fydd saint Llan … yn gwybod llawer am litwrgi nac yn poeni am ddiwinyddiaeth". Gwae'r pregethwr a lithrodd i'r fath rigol o ddiogi ysbrydol! Mae angen dyfalbarhad mewn gweddi wrth drefnu oedfa oherwydd fod yr Ysbryd Glân yn bendithio'r paratoadau ogystal â'r oedfa ei hun.

1. Dewis thema. Cymorth mawr i'r addoliad yw cael un thema yn asio'r cyfan wrth ei gilydd. Dylai'r gwahanol elfennau, y darllen a'r emynau a'r gweddïau, adlewyrchu'r thema honno. Cymorth i ddewis thema arbennig yw patrwm y Flwyddyn Eglwysig ac yn sicr dylid dathlu'r Gwyliau Cristionogol fel y Nadolig, y Pasg, y Sulgwyn a Gŵyl Ddewi. Cymorth arall yw'r Darlleniadur yn y Llyfr Gwasanaeth (1962 a 1998) sy'n diogelu'r pregethwr rhag syrthio i'r fagl o ddewis ei hoff themâu ef ei hun yn barhaus! Wedi dewis thema dylid gwahanu'r gwasanaeth yn dair rhan.

2. Tair rhan hanfodol gwasanaeth yw:

i) Dynesiad at Dduw neu'r Paratoad,

ii) Y neges oddi wrth Dduw neu Gweinidogaeth y Gair,

iii) Ymateb y gynulleidfa.

Dyma batrwm sylfaenol i bob gwasanaeth yr ydym yn ei drefnu, boed wasanaeth ieuenctid neu oedolion, cymun neu bregeth. Rhaid diogelu'r tair rhan neu fe gollir y cydbwysedd angenrheidiol.

Mae hyn ychydig yn wahanol i'r drefn yr ydym fel Ymneilltuwyr wedi ei mabwysiadu ers blynyddoedd. Y prif elfennau arferol yw: yr alwad i addoli, sy'n gyfarchiad gan un person a'r gynulleidfa yn ymateb trwy ganu emyn. Gwrandewir ar y Gair yn cael ei ddarllen ac ymatebir i'r darlleniad trwy ganu emyn. Gall yr emyn hwn fod yn weddi am ufudd-dod i'r Gair neu yn baratoad ar gyfer dynesu mewn gweddi. Yna daw'r brif weddi yn y gwasanaeth ac mae'n cynnwys ymateb y gynulleidfa mewn eiriolaeth. Cyflawna'r dasg o baratoi'r gynulleidfa i dderbyn neges y bregeth. Gan amlaf, ond nid yn ddieithriad, gosodir y cyhoeddiadau a'r casgliad rhwng y weddi a'r bregeth. Nid rhannu dibwys sy'n "torri ar naws yr addoliad" yw'r rhannau hyn ond cyfle i'r eglwys leol gyfrannu yng ngweithgarwch Teyrnas Dduw. Mae neilltuo'r offrwm trwy weddi yn arfer hyfryd y dylid ei arddel ar bob cyfrif. Wedi canu emyn neu anthem ceir uchafbwynt y gwasanaeth, y bregeth. Gair Duw yn cael ei agor yn oleuni i'r gynulleidfa. Ymatebant hwy trwy ganu emyn priodol cyn ymadael gyda'r fendith. Daeth yn arfer mewn rhai llefydd i'r gynulleidfa adrodd y fendith apostolaidd ond fe ddylai'r arweinydd eu gollwng yn gyntaf gyda brawddegau addas.

Dyma'r patrwm y mae Ymneilltuwyr wedi ei fabwysiadu oddi ar yr ail ganrif-ar-bymtheg. Y mae'n cyrraedd ei binnacl yn y bregeth ac yn sicr mae hynny yn gwbl briodol. Ei ogoniant yw ei symlrwydd gyda'r adrannau yn cael eu cadw'n unedau cyfan - y darllen, y weddi a'r bregeth. Cyfyngir ymateb y gynulleidfa i ganu emynau, anthemau a Salmau ac i adrodd Gweddi'r Arglwydd ac i gyfrannu yn y casgliad. Piwritaniaeth na fynnai gydnabod dilysrwydd unrhyw elfen nad oedd gwarant Ysgrythurol iddi yw cefndir y patrwm. Ni chredent y dylai'r gynulleidfa ymateb mewn unrhyw fodd yn y gweddïau ond gydag "Amen". Aeth rhai mor bell a darganfod cyfiawnhad Beiblaidd i hynny trwy gyfeirio ar y gwaharddiad ar gnawd y gog ailadroddllyd ei chân yn Lefiticus!

Dylanwad patrwm Calfinaidd Genefa sydd arno ond nid patrwm John Calfin oedd gosod y weddi o eiriolaeth rhwng y darlleniad a'r bregeth, fodd bynnag. Ymddengys mai'r Westminster Directory (1645) a ddechreuodd yr arfer hwnnw. Piwritaniaeth Lloegr yw tad yr arfer hwn felly. (Gwel. Cheslyn Jones, Geoffrey Wainwright, a Edward Yarnold, *The Study of Liturgy* a Horton Davies, *The Worship of the English Puritans*). Gwendid yr arfer hwn yw gwahanu gweinidogaeth y Gair a lleihau ymateb y gynulleidfa. Collwyd y drefn driphlyg y cyfeiriwyd ati eisoes. Dyma y geilw Robert Baillie y weddi hir,

> "a new fancy of the Independents, grounded on no solid reason, and contraire to all the practice of the Church, old or late, who divided their prayers in more small parts,

and did not have any one of a disproportionate length" (Dyfynnir gan Horton Davies, *Worship of the English Puritans*, 1948, tud 132).

Erbyn heddiw, yn anffodus, aeth hyd yn oed y patrwm hwn yn ffurfioldeb ac yn unffurfiaeth slafaidd. Mewn ambell fan mae'n haws newid gweinidog na newid trefn yr oedfa! Credaf y byddai'n llesol inni ail-ystyried trefn ein gwasanaethau yn gyson, "a'u rhoi'n barhaus o dan farn rasol ein Harglwydd" (Rhagymadrodd Llyfr Gwasanaeth. 1962 td.v).

Gan gofio'r dair adran hanfodol sydd i oedfa dyma ymgais i adeiladu trefn gwasanaeth pur wahanol ond yn ymdrechu at ddiogelu symylrwydd ein traddodiad.

I. Y Paratoad: Priodol dechrau gyda datganiad croyw o weithredoedd rhyfeddol Duw. Brawddegau o'r Ysgrythur yw'r gorau. Gellir canu emyn sy'n rhoi mynegiant i fawredd a gogoniant Duw. Ef sy'n teilyngu'r parch a'r anrhydedd. Dylid mynegi diolchgarwch am ddaioni a haelioni Duw.

Rhan bwysig o'n paratoad yw cyffesu ein pechodau a'n hannigonolrwydd. Gwneir hynny mewn gweddi gall y gynulleidfa ei hadrodd. Mae rhan o Salm 51 yn briodol. Wedi'r gyffes rhaid rhoi mynegiant i lawenydd yr efengyl - Duw sy'n maddau pechod yw ein Duw ni. Priodol yw gwneud hynny â geiriau o'r Ysgrythur. Er enghraifft, 1 Tim 1:15 neu 1 Ioan 1:9 neu eiriau'r Iesu yn Ioan 8:11. Dylid cynnwys, hefyd, ddeisyfiad mewn gweddi am arweiniad Duw yn y gwasanaeth. Gochelwch, fodd bynnag, y brawddegau ystrydebol, "gad i ni dy deimlo'n agos" neu "anghofio'r byd y tu allan" a "bendithied pob yr un ohonom". Eu perygl yw canolbwyntio ar yr hyn a gawn ni allan o'r gwasanaeth. Y perygl y soniwyd amdano eisoes, sef, y syniad mai dim ond er mwyn cael y deuwn i'r oedfa, neu er mwyn gwella'n cyflwr emosiynol a seicolegol, neu, hyd yn oed, i gadarnhau ein hunain yn y gred fod ein bywydau yn well na phawb arall. Dylai'n gweddïau yn hytrach ganoli ar yr hyn y dylai'n gwasanaeth fod - aberth neu rodd deilwng o fawl i Dduw. Dylai'r agoriad gynnwys gweddi am nerth Duw i drawsnewid ein mawl digon annheilwng yn rodd gymeradwy Iddo. Dyma'r elfennau yn y paratoad:

Galwad i Addoli/Mawl a Gogoneddu/Emyn
Cyffes a chyhoeddiad a maddeuant
Gweddi dros y gwasanaeth (Gweddi'r Arglwydd os dymunir).

ii. Gweinidogaeth y Gair: Dyma ran bwysicaf y gwasanaeth yn ein traddodiad ni fel Ymneilltuwyr. Amcan yr adran yw sicrhau fod Gair Duw yn cael ei glywed yn eglur. Tasg enfawr ac un yn gofyn am gryn ostyngeiddrwydd wrth ei chyflawni a'i pharatoi. Gellir cynnwys amrywiaeth o ddarlleniadau ond nid oes rheol bendant fod yn rhaid cael un darlleniad o'r Hen Destament. Arfer y dylem ei feithrin yn yr oes sydd ohoni efallai yw cyflwyno rhagymadrodd yn egluro yn fyr gefndir y

darlleniad. Ni ddylai fod yn fwy na brawddeg neu ddwy. Mae 15 i 30 o adnodau yn ddigon o ddarlleniad. Priodol yw defnyddio'r darlleniadur gan fod hwnnw'n dilyn y flwyddyn Gristionogol. Ei ddefnyddioldeb yw ein cadw rhag dewis ein hoff ddarnau o'r Ysgrythur yn barhaus. Gellir defnyddio aelodau o wahanol oedran i gyflwyno'r darlleniadau ond byddwch yn wyliadwrus. Difethwyd mwy nag un gwasanaeth gan ddarllenwyr dibrofiad. Priodol yw canu emyn ac offrymu gweddi fer yn deisyfu goleuni'r Ysbryd Glân ar y pregethu a'r gwrando. Ni ddylai'r bregeth fod yn rhy faith ac fe ddylid ymdrechu yn ddygn i fod yn glir a chryno gan gadw at y thema a ddewiswyd i'r gwasanaeth. Doethach yw osgoi'r demtasiwn i ddod ag elfennau amherthnasol i mewn i'r neges. Cymylu dealltwriaeth pobl o'r thema wna hynny. Dyma elfennau'r ail adran:

Darlleniadau
Gweddi fer
Emyn (os dymunir)
Pregeth

iii. Yr Ymateb: Wedi'r neges caiff y gynulleidfa gyfle i ymateb iddi trwy gysegru eu hunain mewn ufudd-dod i Air Duw. Y dull mwyaf addas yw gweddi. Yma gellir offrymu'r weddi hiraf yn y gwasanaeth. Y themâu addas i'r weddi hon yw mawl a diolchgarwch, sef, yr elfennau olaf yng Ngweddi'r Arglwydd - "eiddot ti yw y deyrnas a'r nerth a'r gogoniant" - ac eiriolaeth tros eraill. Wedi gwrando'r Efengyl mae'n briodol i Gristionogion droi eu golygon oddi wrth hwy eu hunain tuag at eraill. Yn ei heiriolaeth fe saif yr Eglwys megis offeiriaid i'r byd gerbron gorsedd Duw. Dyma wir offeiriadaeth y saint ar waith mewn ymbil ac eiriolaeth daer ar ran y byd. "Cael ymuno yn yr offeiriadaeth gostus hon yw braint pob crediniwr, ….. Y mae'n un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o arbed y Cristion rhag hunangonsyrn, a'r Eglwys rhag bod yn fewnblyg" (Richard G Jones, *Groundwork of Worship and Preaching*, Epworth, 1980, td. 166). Dylai'r eiriolaeth gydio yn rhai o themâu y bregeth - ond ni ddylid pregethu mewn gweddi.

Gellir defnyddio litwrgi pe dymunir. Os nad yw'r arweinydd yn defnyddio gweddi wedi ei hargraffu yna fe ddylid dweud wrth y gynulleidfa beth yw'r ymateb a ddisgwylir. Er enghraifft.

Arweinydd:"Arglwydd, yn dy drugaredd"

Cynulleidfa: **Gwrando ein gweddi**

Er i'r Piwritaniaid ffieiddio defnyddio'r Llyfr Gweddi Gyffredin yr oedd llawer ohonynt yn defnyddio gweddïau gosod wedi eu hargraffu. Yr oedd eraill ohonynt yn ffafrio'r weddi fyrfyfyr neu rydd.

Nid amhriodol, pe dymunir, yw adrodd credo fer yn y rhan hon o'r gwasanaeth. Yn anffodus darfu arfer yr Annibynwyr o adrodd y Cyfamod Eglwysig yn eu gwasanaethau. Gweler y Ll. G. 1962, td. 56 a Ll. Gw 1998, td 179, am enghreifftiau o gyfamodau y gellid eu hadrodd. Dyma enghraifft o gredo gyfoes:

"Ymddiriedwn yn Nuw ein Tad, y mae'r dyfodol yn ei law.
Ymddiriedwn yn Nuw y Mab, y mae ei gariad yn cau amdanom.
Ymddiriedwn yn Nuw yr Ysbryd Glân, y mae'n ail greu popeth trwy ei nerth.
Gwasanaethwn Ef yn y byd,
Gogoneddwn Ef yn yr Eglwys,
Hyd nes y daw. Amen".

Yn y rhan yma y dylid cael y casgliad a'r cyhoeddiadau. Rhan o'r ymateb ymarferol i ddaioni Duw ydyw ac nid rhywbeth i'w wthio o'r neilltu. Gellir cloi trwy ganu emyn o ymgysegriad a chyhoeddi'r fendith. Dyma grynodeb o'r adran olaf ar ôl y bregeth:
(Credo)
Gweddi ddiolchgarwch ac ymgysegriad ac Eiriolaeth
(Y Cyfamod Eglwysig)
Casgliad a gweddi
Emyn
Y Fendith

Dyma'r dair adran o'r gwasanaeth gydag ychydig o amrywiadau. Cedwir yr un drefn wrth ddathlu Swper yr Arglwydd hyd at ddiwedd yr ail adran. Yna fe ellid adrodd y Cyfamod Eglwysig, darllen geiriau'r sefydlu, canu emyn, estyn y gwahoddiad yna offrymu gweddi o diolchgarwch - Gweddi'r Ewcharist. Wedi'r gweinyddu priodol hefyd yw offrymu gweddi fer o ymgysegriad. Mae rhai eglwysi'n hoffi'r arfer o Rannu Tangnefedd cyn cymuno.

OEDFA DEULU

Daeth oedfa deulu yn rhan sefydlog o batrwm addoliad nifer cynyddol o eglwysi bellach. Ond dylid pwysleisio fod y tair elfen a nodwyd eisoes yn llywodraethol yma yn ogystal. Er bod y plant yn bresennol dylid osgoi'r demtasiwn i ddarparu ar eu cyfer hwy yn unig. Tasg yr arweinydd neu'r pregethwr yw ceisio helpu pobl o bob oed i gyflwyno bywyd y gymuned gyfan i Dduw. Yn ôl John C.A. Barrett, *Family Worship: in theory and practice*, Epworth, 1982, gwasanaeth teuluol ddylai fod y prif wasanaeth ar y Sul, ond nid o angenrheidrwydd yr unig wasanaeth. Priodol yw bod y teulu fel uned yn cael cyfle i addoli â'i gilydd.

Rhydd gyfle gwych i rai o wahanol oedran addoli gan ddefnyddio'r cyfrwng sy'n addas iddynt. OND NID CYNGERDD MOHONO. Gellir defnyddio drama, dawns, meim, arlunio, ac yn y blaen i gyfleu y neges. Fel y nodwyd eisoes y mae dewis thema arbennig yn

angenrheidiol. Profiad dymunol fyddai eistedd gyda'r gynulleidfa yn trefnu'r gwasanaeth. Gellid gwneud hynny os oes Ysgol Sul plant ac oedolion mewn capel.

Gellir defnyddio darlleniad dramatig neu ddramateiddio darlleniad o'r ysgrythur. Rhennir y cymeriadau mewn darlleniad arbennig i aelodau'r gynulleidfa. Gall fod yn effeithiol iawn wrth ddarllen o'r Efengylau.

Cyfrwng arall yw drama. Perfformir sgets ar sail un o'r damhegion gyda'r neges wedi ei chymhwyso i'n hoes ni. Er enghraifft, Dameg yr Heuwr ar ffurf sgets "Avon Calling" gyda 4 cymeriad yn cynrychioli'r 4 math o dir. Arwerthwr yn mynd o ddrws i ddrws yn gwerthu cosmetics y tro cyntaf ac yn cael ymateb cymysg. Yn lle cosmetics rhodder Beibl Cymraeg Newydd yn llaw'r arwerthwr. Gall fod yn ffordd effeithiol o ddod a neges y ddameg yn fyw - stori cynnydd yw stori'r ddameg. Gogoniant cyflwyniad o'r fath yw nad oes angen sgript bob tro. Ceir enghreifftiau o sgetsus a dramâu yn llyfrau Cyhoeddiadau'r Gair. Ond buan y blina'r gynulleidfa ar ddogn gyson o'r un peth!

Y gyfrinach wrth drefnu gwasanaeth o'r fath yw gwneud yn siŵr fod y ddiwinyddiaeth waelodol yn gadarn a chlir. Dylid pregethu mewn gwasanaeth teulu, ond rhaid bod yn fyr ac i bwrpas. Gall cyfarpar gweledol fod yn gymorth mawr i gyfleu'r neges. Rhaid i'r cymhariaethau fod yn fyw a darluniadol

Dylai'r emynau adlewyrchu diddordeb pob oedran. Nid yw'n amhriodol i'r ieuenctid gael cyfle i ddod ag enghreifftiau o'u diwylliant hwy eu hunain cyn belled ei fod yn addas i'r thema. Gwell gofyn iddynt hwy eu hunain am gyfarwyddid yn y mater hwn.

Dylai'r pregethwr feddwl amdano'i hun fel galluogwr wrth drefnu gwasanaeth o'r fath – un sy'n galluogi eraill i addoli a gwasanaethu Duw.

Dyma restr i'r pregethwr ei defnyddio i holi ef ei hun ar derfyn ei baratoadau:

1. A yw prif adrannau'r gwasanaeth yn glir?
   A yw y dynesiad/paratoad at Dduw yn Effeithiol?
   A oes gwir foli a gogoneddu Duw?
   Gwir gyffes a maddeuant?
2. A yw'r darlleniadau yn berthnasol i brif thema'r oedfa?
   A yw'r cyflwyniad i'r darlleniadau yn addas?
   (Mae angen rhestr arall i'r bregeth ei hun)
3. A yw'r neges y bregeth yn cael mynegiant yn yr ymateb?
   A yw'r gweddïau yn mynegi diwinyddiaeth gadarn?
   A yw'r iaith yn glir, ond heb fod yn sathredig?
   A yw'r amser a neilltui'r i wahanol adrannau'r weddi yn addas?
   A yw'r eiriolaeth yn addas a pherthnasol i'r neges?
   A yw'r gynulleidfa yn cael digon o ran yn y gweddïau?

4. A yw'r Emynau yn addas?
   A yw'r ddiwinyddiaeth yn addas?
   A oes digon o amrywiaeth mewn mydr?
   A ydynt yn addas i'r gynulleidfa i'w canu?

Mae arwain pob gwasanaeth yn her, ond yn arbennig gwasanaeth teulu. Gobeithio nad oes arnom ofn yr her honno.

DARLLEN Y GAIR

Rhan bwysig ac allweddol o addoliad y crefyddau mwyaf bron yn ddieithriad yw darllen yr Ysgrythurau Sanctaidd. O Gŵran y Moslemiaid, Feda'r Hindw, Canon Pali y Bwdydd, i'r Hen Destament a Thestament newydd y traddodiad Iddewig a Christionogol.

Wrth sylwi ar ddechreuadau'r Eglwys Gristionogol gwelir for darllen yr Ysgrythurau yn rhan bwysig o'i haddoliad. Ailadrodd traddodiad y Synagog Iddewig yr oeddent yn hyn o beth ac onid oedd Iesu wedi dilyn yr arfer hwnnw pan aeth i'r Synagog yn Nasareth a darllen y sgrôl (Luc 4)? Cofnodir hanesyn diddorol am Esra yn darllen o lyfr y gyfraith yn Nehemeia 8fed bennod. Nid yn unig yr oedd darllen ond hefyd cafwyd esbonio ystyr y geiriau neu bregethu. Yr oedd darllen ac esbonio'r gair yn mynd law yn llaw yn ddieithriad i'r Cristionogion hwythau.

Yr Hen Destament oedd Ysgrythurau'r Eglwys Fore ond mae'n amlwg hefyd y bod lle i'r traddodiad llafar am fywyd a gwaith Iesu Grist. Y traddodiad hwn, maes o law, a gofnodwyd yn yr Efengylau. Epistolau Paul yw dogfennau ysgrifenedig cynharaf y Testament Newydd ac mae'n sicr iddynt hwythau gael eu darllen a'u cylchredeg yn helaeth trwy'r eglwysi. Cyn hir tyfodd y rhain yn Ysgrythurau i'r Eglwys Gristionogol. Dyma stori ddiddorol datblygiad y canon ("y ffon fesur", "safon") sy'n rhan o'r cwrs ar y Testament Newydd.

A bod yn fanwl, nid darlleniad ydyw ond GWRANDAWIAD. Gwrando'r gair yn cael ei ddarllen y mae'r gynulleidfa. Anaml iawn erbyn hyn y gwelir aelodau eglwysig yn dod a'u Beiblau gyda hwy i'r oedfa. Yn ymarferol, felly, yr ydym yn ôl yn sefyllfa'r Cristionogol Bore cyn belled ag y bo gwrando'r darlleniad yn y cwestiwn. Yn wir, dylid cofio bod rhai o lyfrau'r Beibl wedi eu bwriadu i'w darllen yn llafar. Y mae Datguddiad Ioan yn enghraifft dda yn ôl Hans-Ruedi Weber. Profiad ysgytiol yw gwrando arnoch eich hunan yn darllen trwy'r llyfr mewn un eisteddiad, neu, gwell fyth, yn gwrando ar recordiad ohono. Daw'r darluniau yn llawer mwy byw na phe baech ond yn darllen yn ddistaw i chwi eich hunan. Ac yn fwy na hynny, mae rhywun fel pe bai yn gwrando'n fwy astud. Efallai ei bod yn wir mai'r llygad yw cannwyll y corff, ond yn sicr, y glust yw drws y galon.

Y mae gwrando, wrth gwrs, yn golygu mwy na dim ond clywed, y mae'n cynnwys ufuddhau yn ogystal. Dyna paham fod clywed yn gywir mor bwysig. Dyna osod cyfrifoldeb mawr ar y sawl sy'n darllen gair Duw i'r gynulleidfa ac ar y sawl sy'n esbonio'r gair. Gall darllen gwael a disynnwyr nid yn unig ddifetha gwasanaeth addoliad ond gall daflu'r gwrandawyr i ddryswch llwyr. Cyngor Antonio Stradivari i'w weithwyr oedd, "Nido es yr un ffidl i adael y gweithdy hwn nes ei bod mor berffaith ag y medr y crefftwr ei gwneud." Pan ofynnwyd iddo esbonio ei ofal am berffeithrwydd atebodd: "Mae ar Dduw angen y ffidl i gludo ei gerddoriaeth i'r byd, ond os yw'r ffidl yn diffygiol, yna mae cerddoriaeth Duw yn cael ei ddifetha". Mae angen darllenwyr da i gludo gair Duw i'r byd - os yw'r darllen yn ddiffygiol pa fodd y clyw y bobl?

BETH YW GAIR DUW?

Y mae gwahanol safbwyntiau ar y pwnc hwn. Dyma grynodeb o ddau ohonynt:-

i. Pwysleisir mai Duw sy'n cyfarch dyn trwy'r gair. Nid creadigaeth dyn mohono ond cyfarchiad dwyfol. "Nid llyfr am ddyn a'i ymchwil am Dduw mo'r Beibl ond llyfr am Dduw yn cyfarch dyn: cronicl o fawrion weithredoedd Duw yn ei ymwneud â'r byd a thrwyddo llefara Duw wrth y byd" (E Stanley John, *Beth yw Addoli*, Cyfres Cymru i Grist, tt. 8,9).

Clywir gair Duw nid yn unig trwy enau'r proffwyd ond fe'i gwelir mewn digwyddiadau hanesyddol yn ogystal. Yn wir, y mae'r gair Hebreag am "air" ("dabhar") yn gallu golygu "ffyrdd" a "gweithredoedd". Yn yr ystyr hwn y gellir dweud fod gweithredoedd Duw yn air hefyd. Gellir yn ffyddiog felly ddechrau'r darlleniad gyda'r ymadrodd, "Clywch air yr Arglwydd". Yr un modd, ar derfyn y darlleniad gellir dweud, "Clod i Dduw am ei air", neu "Hwn yw gair yr Arglwydd".

Dyma syniad aruchel o'r Beibl fel gair Duw. Rhagdybir ei fod yn cynnig gweledigaeth ac ystyr i fywyd dyn ymhob oes. Mae ei orchmynion a'r safonau a'i ddysgeidiaeth yr un mor berthnasol heddiw ag yr oedd pan gyfansoddwyd ef yn wreiddiol. Y mae'n norm i foesoldeb ac yn sail i ddiwinyddiaeth.

ii. Er cydnabod fod y Beibl yn cynnwys cyfarchiad oddi wrth Dduw i ddyn, fel geiriau'r proffwydi neu eiriau'r Iesu, eto, dim ond un wedd ar gynnwys y Beibl yw hwn. Y mae rhannau sylweddol ohono yn air dyn i Dduw, fel y Salmau, er enghraifft. Dyn yn cyfarch Duw mewn moliant a diolchgarwch yw rhannau ohono. Dyn yn trefnu cymdeithas trwy roi deddfau a sefydliadau a geir mewn rhannau eraill.

Dylid cofio felly mai llyfrgell amrywiol o wahanol fathau o lenyddiaeth o gyfnodau yn ymestyn yn ôl i oddeutu 900 mlynedd cyn Crist ac ymlaen i 100 mlynedd oed Crist yw'r Beibl. Y mae'n gasgliad o gyfreithiau (Deuteronomium), caneuon serch (Caniad Solomon), hanes (Brenhinoedd a Chronicl), pregethau neu oraclau (e.e. Hosea), gweledigaethau (Daniel neu Datguddiad), diarhebion, hanes bywyd a marw Iesu (Yr Efyngylau), llythyrau i eglwysi ac unigolion, ac yn y blaen. Fe'i cyfansoddwyd i gyflawni gwahanol ddibenion mewn gwahanol gyfnodau yn hanes yr Iddewon a'r Eglwys Gristionogol.

Gan fod y sbectrwm mor eang yn hanesyddol y mae ynddo ddatblygiad mewn syniadau. Er enghraifft, gyda'r syniad am fywyd wedi marwolaeth. Y mae amrywiaeth mawr rhwng cred yr Iddew for cysgod dyn yn ymostwng i lawr i Sheol tra fo ei bersonoliaeth yn byw ymlaen trwy ei feibion, â syniad Paul am yr enaid yn cael ei gwisgo a chorff o'r nef ac yn byw gyda Christ.

Gall gair Duw gyffwrdd y galon trwy gyfrwng y darlleniad a'r bregeth, ac felly rhaid i naill fel y llall fod yn hyglyw ac yn glir. Gan mai Crist ei hun yw'r Gair a thystiolaethu amdano ef y mae'r Ysgrythurau – gweler Luc 24: 25-17. Ar y sail hon y darllenir yr Hen Destament yn ogystal â'r Newydd, gan gadw mewn cof yr amrywiaeth cyfoethog sydd ynddynt. Nid yw'r Apocryffa yn y rhelyw o'r Eglwysi Protestannaidd yn cael yr un statws â'r Hen Destament a'r Testament Newydd. Arferir edrych arno fel deunydd i'w ddarllen yn bersonol ond nid yn gyhoeddus.

Gellir crynhoi pwrpas darllen y Beibl mewn addoliad i dri prif reswm. I gyhoeddi'r efengyl, i ddysgu ac adeiladu a hyfforddi, i fynegi mawl a diolchgarwch. Yn gyffredinol, dyna pan mae'r Eglwys yng Nghymru yn cynnwys darlleniad o'r efengylau, yr epistolau ac o'r Hen Destament (yn arbennig yn y Salm). Nid drwg o beth fyddai i ninnau fel Ymneilltuwyr wneud defnydd helaethach o'r Beibl yn ei gwasanaethu. 'Does dim rheidrwydd arnom i ddefnyddio darlleniad o bob adran ymhob gwasanaeth ond yn sicr, fe gyfoethogid ein hoedfaon pe baem yn cadw y rhaniad hwn mewn cof. Er enghraifft, nid oes gwell ffordd i agor y gwasanaeth na thrwy ddyfynnu darn o Salm (y mawl a'r diolch). Wedi cyffesu pechodau gellid adrodd darn sy'n dangos grym maddeuant Duw (yr Efengyl).

PA GYFIEITHIAD?

Y mae gennym bellach yng Nghymru nifer o gyfieithiadau y gellid eu defnyddio: Beibl 1620; Y Beibl Cymraeg Newydd Diwygedig; Beibl.net. I'r pwrpas o ddarllen yn gyhoeddus y mae'r BCN yn gwbl foddhaol, er nad yw yn aml, yn swnio cystal â'r hen gyfieithiad. Yn sicr, fodd bynnag, er bod rhai o'r rhannau mwyaf cyfarwydd wedi colli eu hurddas, y mae rhannau eraill, fel yr epistolau yn llawer iawn eglurach ynddo. Gan mai eglurder yw'r nod, priodol yw defnyddio'r BCN, er y gellir ambell dro, ddefnyddio'r hen mewn amgylchiadau arbennig. Mae Beibl.net mewn iaith lafar – gall fod o ddefnydd mewn gwasanaethau lle mae pobl ifanc a phlant yn bresennol.

Y DARLLEN

Er inni feddu'r ddawn i ddarllen ni ellir darllen yn gyhoeddus heb baratoad manwl. Nid rhywbeth naturiol neu gynhennid yw'r ddawn honno ond crefft i'w meithrin yn ofalus. Clywyd perlau o'r pulpud Cymraeg cyn heddiw. Er enghraifft, un pregethwr yn darllen y frawddeg, "Aeth bob un o feibion Jacob i lawr i'r Aifft", fel hyn, "Aeth bob, un o feibion Jacob, i lawr i'r Aifft". Pregethwr arall yn lle darllen, "Ymnertha di yn yr Arglwydd. Ymwrola …." Yn dweud, "Ymnertha di yn yr Arglwydd ymwrola".

Gan ein bod yn byw yn y dyddiau lle hyfforddir pobl i ddarllen y newyddion, dylai'n heglwysi hyfforddi ei darllenwyr. Mae tair egwyddor gyffredinol i'w cofio.

- **Swnio'n naturiol - crefft i'w meithrin yw honno.**
- **Cyfleu yr ystyr yn glir**

Wrth ddarllen darn o'r Ysgrythur dylid edrych am dri pheth eto.

- **Y PWYSLAIS**
- **YR YMADRODDION**
- **YR YSTYR A GEIR YN Y GEIRIAU**

Y PWYSLAIS

Rhaid pwysleisio'r geiriau priodol neu fe gyll darlleniad ei ystyr. Y demtasiwn gyffredin yw pwysleisio geiriau dibwys. "Cariad YW Duw". Er enghraifft yn y frawddeg "Nyni sy'n pregethu Crist i'r holl fyd", cwbl amhriodol yw pwysleisio "sy'n".

Y mae'r uchod yn frawddeg ddiddorol oherwydd bod cymaint o wahanol ffyrdd o'i mynegi. Gellir pwysleisio o leiaf 4 gair a'r cyfan yn rhoi ystyr gwahanol i'r frawddeg (nid yw'n frawddeg Feiblaidd, gyda llaw).

"NYNI sy'n pregethu Crist i'r holl fyd"
"nyni sy'n pregethu CRIST i'r holl fyd"
"nyni sy'n pregethu Crist i'r HOLL fyd"
"nyni sy'n PREGETHU Crist i'r holl fyd".

Penderfynir yr ystyr o'r cyd-destun. Beth yw pwrpas yr awdur ei hun?

Nodwch y geiriau pwysig mewn darlleniad, y rhai sydd i'w pwysleisio, fe ddaw'r darlleniad yn eglur i'ch gwrandawyr. Ee Ioan 1:1

"Yn y **DECHREUAD** yr oedd y Gair; yr oedd y Gair **GYDA DUW**, a Duw **OEDD** y Gair".

Aeth sawl pregethwr i'r gors wrth gam-bwysleisio. Dyma enghraifft yn Saesneg: 1 Bren 13:"Saddle ME the ass. So they saddled HIM the ass".

- Pwysleisiwch y syniad newydd sy'n cael ei fynegi. Er enghraifft, yn y frawddeg hon:
  "Gwnaeth John lun o Eglwys Tŷ Ddewi. Gwnaeth y llun mewn 2 ddiwrnod".
  Y mae'n rhaid pwysleisio "llun" yn y frawddeg gyntaf ond ei dawelu yn yr ail. Yn yr ail frawddeg y mae'r pwyslais yn disgyn ar "2 ddiwrnod".
  Ni ddylid pwysleisio hen syniadau neu syniad sydd wedi ei fynegi yn barod.
  Ioan 14: 5,6: Meddai Thomas wrtho, "Arglwydd ni wyddom i ble'r wyt yn mynd. Sut y gallwn wybod y FFORDD?" Dywedodd Iesu wrtho, "Myfi yw'r ffordd, y GWIRIONEDD a'r BYWYD".
  Yn ateb Iesu y mae "ffordd" yn hen syniad, felly, nid yw'n cael ei bwysleisio.

  Pwysleisiwch y cymariaethau mewn darn. Ee
  "Mae CASINEB yn achosi cynnen, ond mae CARIAD yn cuddio pob trosedd".

"BENDITHIWCH y rhai sy'n eich melltithio. Bendithiwchac ni FELLTITHIWCH".
"Cyflog y CYFIAWN yw BYWYD, ond cynnyrch y DRWG yw PECHOD".
"CYFLOG PECHOD yw MARWOLAETH, eithr DAWN DUW yw BYWYD TRAGWYDDOL".
Gan fod y Gymraeg yn gosod y ferf yn gyntaf dylid ei phwysleisio. "CAUWCH y drws".

YR YMADRODDI a'r SEIBIANNAU

Clywir ambell bregethwr yn rhuthro ar garlam trwy ddarlleniad heb sylwi ar ystyr yr hyn y mae yn ei ddarllen na phoeni am ei wrandawyr. Am hynny, mae lleoli seibiannau yn holl bwysig. Nid ydynt o angenrheidrwydd yn dilyn atalnodau y darn. Er enghraifft yr adnod enwog Ioan 3:16.

"Do, /carodd Duw y byd gymaint/ nes iddo roi ei unig Fab,/ er mwyn i bob un sy'n credo ynddo ef/beidio â mynd i ddistryw/ond cael bywyd tragwyddol".

Canmolwyd actor un tro, am ei berfformiad o Moliére, yn arbennig ei seibiannu. "Ah", meddai yntau, "Moliére bia'r geiriau, ond fi pia'r seibiannau".

YSTYR

- Y mae ystum y wyneb yn bwysig wrth ddarllen er mwyn cyfleu'r teimlad mewn darlleniad.
- Yr un mor bwysig yw goslef llais. Bu'n ffasiynol yn y gorffennol darllen y Beibl gyda goslef uchel. Ond undonog a diflas i wrando arno yw darlleniad felly erbyn heddiw.
- Gochelwch y demtasiwn i adrodd. Nid adrodd yw darllen.
- Mae goslef llais yn medru rhoi mynegiant i deimladau fel ofn neu falchder neu ostyngeiddrwydd neu farn neu faddeuant. Dylai ystyr y testun roi syniad i chi pa oslef sy'n addas. Er enghraifft, Mathew 22:23 ymlaen. Dyma ddarn sy'n gofyn am gryn grefft wrth fynegi hyder hunangyfiawn cynrhychiolydd y Sacwceaid ac ateb clir a chadarn (ond nid llym) yr Iesu. Mae'n rhaid paratoi darlleniad fel hyn yn ofalus iawn. Nodwch y geiriau i'w pwysleisio a'r llefydd i roi seibiant, yna, wedi cael ystyr y darn, rhowch liw iddo trwy amrywio eich llais, cyflymdra, cryfder llais. Ond cofiwch ddefnyddio eich llais naturiol ac nid rhyw lais gwneud.

Y tri pheth hanfodol i fynegi ystyr darn yw:

CRYFDER Y LLAIS, CYFLYMDRA, TRAW

Gwyliwch rhag syrthio i'r demtasiwn o ostwng eich llais ar ddiwedd brawddegau. Ffordd hwylus o helpu eich hun i baratoi darlleniad yw trwy recordio eich hun yn darllen. Wedi gwrando arno holwch eich hunan a ydych wedi mynegi'r ystyr yn gywir ai peidio? Peidiwch â bod ofn marcio eich copi personol o'r Beibl os ydych am nodi'r geiriau i'w pwysleisio, y seibiannau a chryfder y llais. Cofiwch ynganu'r geiriau yn glir. Codwch eich pen i edrych ar

eich gwrandawyr - gwell codi'r Beibl yn eich dwylo na'ch bod yn edrych ar eich traed eich hun!

Y DARLLENIAD A'R BREGETH

Dylai'r darlleniad fod yn addas i neges y bregeth. Ond nid yw'n gwbl angenrheidiol i destun y bregeth ei leoli yn y darlleniad ei hun. Ein harfer fel Ymneilltuwyr yw dewis darlleniad i siwtio'r bregeth ond dylem osgoi'r perygl o ddewis yr un rhannau yn aml. Cymorth amhrisiadwy yw dilyn y Darlleniadur sy'n cynnig amrywiaeth cyfoethog o ddarlleniadau dros gyfnod o ddwy flynedd gan ddilyn y flwyddyn eglwysig. Y mae'n gymorth i'r pregethwr rhag aros gyda'i hoff themau, ac mae'n sicrhau fod y gynulleidfa yn cael clywed detholiad eang o adnodau'r Beibl.

HYD Y DARLLENIAD

Y mae 20-30 adnod yn ddigon o ddarlleniad; yn sicr, nid oes angen darllen pennod gyfan. Arfer Eglwys Loegr cyn iddi ddiwygio ei darlleniadur oedd darllen penodau cyfan. Canlyniad doniol hynny oedd ar dri Sul o'r flwyddyn byddai'r gynulleidfa yn clywed hyn: "Paul … wedi gwneud distawrwydd mawr, efe a lefarodd wrthynt yn Hebreag, gan ddywedyd, Yma'r terfyn yr ail lith" (Act 21:40).

CYFARPAR MODERN

Gellir cael sleidiau addas ar Power Point bellach i fod yn gefndir i'r darlleniad. Gall darlleniad o'r fath fod yn hynod o effeithiol. Ond ni ddylid ei defnyddio'r slafaidd.

Yr adnoddau gorau y gall rhywun ei gael yw darllenwyr da yn ei gynulleidfa. Gwnewch ddefnydd ohonynt. Ond cofiwch, gydag ymroddiad, 'does dim un rheswm pam na allwch chwithau fod yn ddarllenydd da.

DARLLEN DRAMATIG

Gellir rhannu cymeriadau mewn darlleniad rhwng aelodau'r gynulleidfa. Er enghraifft, Mathew 27: 62-28:20. Rhywun i gymryd y naratif, un neu fwy i gymryd rhan y prif offeiriad a'r Phariseaid, Peilat, yr angel, y gwragedd, a Iesu. Ni does angen dweud, "a dywedodd" neu "meddai"… Gall hwn fod yn hynod o effeithiol mewn cynulleidfa gyda phobl yn codi yn eu seddau i ddarllen.

Llyfryddiaeth:

Clifford Warne, et.al, Using the Bible for Reading our Loud, Cymdeithas y Beibl 1979.
E Stanley John, *Beth yw Addoli?* Cyfres Cymru I Grist – 2
Llyfrau Gwasanaeth yr Annibynwyr 1962, 1998 a 2014.

GWEDDÏO

"Hanfod gweddi yw cymuned â Duw yn enw Iesu Grist", medd y Prifathro E Stanley John, *Beth yw Addoli*, Cyfres Cymru i Grist 2, Tud 9. Un o rasusau neu roddion Duw i ddyn yw gweddi; cyfrwng i ddod i'w bresenoldeb. Dywed un awdur cyfoes mai "torheulo ysbrydol ydyw". Yn ein tywyllwch trown ein golygon i gyfeiriad y goleuni, agorwn ei hunain gerbron pelydrau'r dwyfol oleuni. Fel y blodau sy'n cau gyda'r hwyr ac yn agor eilwaith pan ddaw pelydrau'r haul arnynt. Y peth hanfodol, fodd bynnag, yw dod i bresenoldeb Duw.

Wrth nesáu i bresenoldeb Duw mewn gweddi deuir, nid yn ein henwau ni ein hunain, ond yn enw Iesu Grist. "Nid Archoffeiriad heb allu cyd-ddioddef â'n gwendidau sydd gennym, ond un sydd wedi ei brofi ym mhob peth, yn yr un modd â ni, ac eto heb bechod. Felly, gadewch inni nesau mewn hyder at orsedd gras" … (Heb 4: 15 a 16). Edrych ar Grist y mae Duw ac edrych arnom ni ynddo Ef, yr un sy'n ein cynrychioli gerbron Duw. Yn wir, dywed John Calfin ein bod wrth weddïo yn gwneud hynny trwy enau Crist, yr Eiriolwr mawr. Crist ein brawd, Mab Duw, a roddwyd yn gyfryngwr ac eiriolwr inni gerbron Duw.

Yng Nghrist gellir bod yn hyderus fod Duw yn ateb gweddi oherwydd yn ei Fab fe ŵyr Efe ein holl anghenion cyn i ni ei traethu. Gan mai Duw ei hun sy'n agor y ffordd hon i ni nid mater o ddewis gennym ni yw a rodiwm hi a'i peidio. Anghenraid yw gweddi i'r Cristion fel mae anadlu yn angenrheidiol i'r corff (Karl Barth, *Prayer and Preaching*, SCM Tud 19).Y mae hyn yr un mor wir am y weddi breifat ac ydyw am y weddi gyhoeddus. Yn ymarferol, ychydig o wahaniaeth sydd rhwng y ddwy. Mae'n wir i Iesu ddweud, "dos i'th ystafell ac wedi cau dy ddrws" ….., eto, nid ei amcan oedd dileu gweddi gyhoeddus. Rhybuddio yr oedd i ochel y rhagrith hwnnw sy'n ddim namyn sioe. (Ystyr "ystafell", gyda llaw, yw "pantri" neu "ystordy" - man i gael adeiladaeth a maeth). Camgymeriad, felly, yw meddwl mai rhywbeth preifat yn unig yw gweddi. Adeiladwyd dadleuon di-sail ar y dybiaeth hon mai rhywbeth personol iawn yw gweddi ac felly'n ymgesgusodi rhag gweddïo'n gyhoeddus. Yn ôl J Neville Ward yn ei gyfrol ardderchog *The Use of Praying*, Epworth 1967, **estyniad o'r addoliad cyhoeddus yw'r weddi bersonol** (tud 17). Yr un yw argyhoeddiad John Calfin ar y pwnc:

"Dylai gweddiau Cristion
Gofleidio pawb
O'i frodyr yng Nghrist,
Y rhai y mae yn eu gweld ac yn eu harddel fel brodyr
A'r holl bobl sy'n trigo ar y ddaear …….
Dylai'n holl weddïau edrych
Tua'r gymdeithas honno
A sylfaenwyd gan yr Arglwydd
Yn ei deyrnas a'i deulu".
(Dyfynnir yn Battles, *The Piety of John Calvin*, td 102-03. Gweler hefyd yr adran wych ar weddi yn yr "*Institutes*" Llyfr 3, pennod 20).

Pan lethir rhywun gan broblem neilltuol onid yw'n naturiol i geisio cymorth brodyr a chwiorydd yng nghymdeithas yr eglwys? Felly y mae gweddi yn fater o ranu yn y gymdeithas ac yn y gweddiau.

*"***Dylai gweddiau Cristionogion fod yn gyhoeddus,**
Dylent fod er adeiladaeth yr eglwys,
Ac i ffyniant cymdeithas y credinwyr" (Battles*, ibid. tud 110*)

"Gan Dduw ni ofynnwn am unrhyw fantais breifat;
Na, gyda'n gilydd, y gofynnwn yn gyffredin,
Am ein bara,
Am faddeuant ein pechodau,
Rhag cael ein harwain i demtasiwn,
Ac am ryddid oddi wrth un drwg" (Battles*, ibid*, Tud 110)

Mae pobl yn ei chael yn anodd gweddïo'n gyhoeddus heddiw am fod gweddi wedi diflannu o'u bywydau personol. Wrth dyfu'n fwy hunanddigonol ymhob peth collwyd yr ymdeimlad o ddibyniaeth ar Dduw ac ar eraill. Aeth ein bywydau personol yn annhrefnus heb amser o gwbl i fyfyrdod na gweddi. Meithrinwyd rhyw syniad cwbl di-sail fod gwyddoniaeth yn mynd i ddatrys ein holl broblemau ac o ganlyniad aeth gweddi'n afraid. Cred eraill mewn rhyw dynghediaeth neu ffawd a 'does dim y gellir ei wneud i newid y sefyllfa'.

Er hynny, ymdeimla llawer â rhyw wacter mawr yn eu bywyd nad yw gwyddoniaeth na'r ocwlt yn llwyddo i'w lanw. Ni ellir dianc oddi wrth yr ymdeimlad fod yna rym Personol y tu ôl i'r cread. Dyma'n cyfle fel Cristionogion i ddangos ein ffydd fod ein Duw ni yn Waredwr a Chreawdwr. A dyma fan cychwyn gweddi.

Nid ffydd mewn gweddi yw ffydd y Cristion ond ffydd yn Nuw. Y mae gweddïo ei hun yn weithred o ffydd am ein bod yn credu, trwy Iesu Grist, ein bod yn blant i Dduw. A hwn yw'r dirgelwch mwyaf mewn gweddi, fod Duw yn ein gwneud ni yn gyd-etifeddion â'i Fab. Nid am ein bod wedi profi ein mabwysiad trwy Grist i deulu Duw (Ioan 1:12). Y mae gan y Cristion glust uniongyrchol i fynwes y Tad. Rhodd y Tad i ni yw "Ysbryd mabwysiad, trwy yr hwn yr ydym yn llefaru, Abba Dad" (Rhuf 8:15). Walter Cradoc y Piwritan o Gymro a ddywedodd:

> "Dylem lafurio am ysbryd cyflawn mabolaeth. Beth yw hwnnw? Dyma yw hwnnw, na bo dim yn fy nghalon at Dduw ond cariad pur, oherwydd yn ei ymddygiad ef tuag ataf fi nid oes dim ond cariad, a gras, a newyddion da …" (Glad Tydings 41. Dyfynnir gan R Tudur Jones, *Yr Ysbryd Glân*, Llyfrfa M C 1972, tud 152-3).
>
> "Ond y mae'r sawl sy'n caru Duw â hoffter sanctaidd yn gwybod y gall neidio i arffed ei Dad pryd y mynno a syrthio i'w freichiau a gofyn am unrhyw beth heb ffalsio na gwenieithio …" (Divine Drops Distilled, 49 R Tudur Jones *ibid*, tud 152).

Pwysleisir nad dawn neilltuol i rai Cristionogion yn fwy nac i eraill yw gweddi ond rhan o etifeddiaeth pob plentyn i Dduw. "Ffordd ydyw, yn hytrach, i bawb o blant Duw ymarfer grasusau fel ffydd, gobaith, cariad ac edifeirwch mewn deisyfiadau ac ymbiliadau ar Dduw" (Dr R Tudur Jones, *ibid*, tud 152). Ond gymaint yw anallu pawb ohonom fel y mae Duw yn trugarhau wrthym ac yn rhoi i ni ei Ysbryd i'n cynorthwyo yn ein defosiwn cyhoeddus a phersonol. A thrwy yr un Ysbryd y mae yn cadw ein golwg yn gyson ar Grist.

Y WEDDI GYHOEDDUS

Y peth pwysig i'w gofio wrth weddio'n gyhoeddus yw bod y sawl sy'n arwain nid yn unig yn arwain gweddiau eraill ac yn rhoi mynegiant i feddylfryd corff cyfan ond fod ef ei hun yn gweddïo. Y mae ganddo gyfrifoldeb tuag at eraill yn sicr, ond nid rhyw berson niwtral, yn y canol megis, rhwng Duw a'r gynulleidfa yw. Am hynny, y mae'n ymdrechu i baratoi ef ei hun i arwain mewn gweddi yn ogystal.

Y mae'r paratoi yn bwysig. Arferai y Cyn Brifathro R Tudur Jones ein dysgu i dreulio cymaint o amser yn paratoi'r gweddiau ac yn paratoi'r bregeth. 'Does dim o'i le ar ysgrifennu gweddi yn llawn. Ceir patrymau addas o weddïau yn ein Llyfrau Gwasanaeth ac yn llyfrau gweddi Cyhoeddiadau'r Gair. Nid amhriodol yw defnyddio'r patrymau a geir yn llyfrau'r eglwysi Cristionogol eraill. Y mae'r Llyfr Gweddi Gyffredin yn llawn o weddïau cyfoethog.

Bu'n ddadl ymhlith Ymneilltuwyr yn y gorffennol a ddylid defnyddio llyfr gweddi ai peidio. Yr Annibynwyr oedd pleidwyr mawr y weddi fyrfyfyr neu rydd, tra mynnai rhai Presbyteriaid gadw at lyfr. Yr oedd y ddwy garfan yn unfryd yn erbyn gorfodi'r Llyfr Gweddi Gyffredin ar neb. Wrth sôn am agwedd y Piwritaniaid tuag at weddi dywed Horton Davies:

> "Oherwydd y ffaith fod y Llyfr Gweddi Gyffredin yn rhagweld cenedl y Saeson i gyd ar ei gliniau gerbron Duw, yr oedd yn rhaid i'r gweddiau fod yn gyffredinol; gweddiau "cyffredinol", ac felly o raid yn amhersonol …. Am fod y weddi rydd yn meddwl yn nhermau eglwys "gynnull" ei nodwedd yw diffuantrwydd a symlrwydd anffurfiol megis rhwng cyfeillion; ei gwendid cynhenid yw bod yn annhrefnus" *(Worship and Theology in England,* cyf. 1 – td 271*).*

Efallai fod gwirionedd yn yr hyn a ddywed Horton Davies mai gwahanol ddealltwriaeth o natur eglwys sy'n gyfrifol am y gwahanol agweddau tuag at y weddi. Onid tuedd pob Llyfr Gweddi a litwrgi yw pwysleisio bodolaeth yr eglwys fel cyfangorff, tra bo gweddi rydd yn pwysleisio anghenion unigolion mewn eglwys deulu. Y gwir yw, fod angen y ddwy wedd mewn gweddi, y pwyslais ar y corff cyfan ac ar anghenion personol yr addolwr. Gogoniant y naill yw ei bod yn diogelu ceinder mynegiant a threfn eglur ond ei gwendid yw ei bod yn oeraidd a dieneiniad, tra cryfder y llall yw ei bod yn codi o gynhesrwydd profiad y galon, ond ei gwendid yw blerwch. Buom ninnau yr un mor euog o ddibynnu ar ysbrydoliaeth y funud

yn ei gweddiau ninnau. Yn fwy nac erioed y mae angen inni fynd at droed y Meistr a gofyn: “Arglwydd, dysg ni i weddio”.

Rhaid i iaith y weddi gyhoeddus fod yn syml a chlir ac uniongyrchol. Nid “boed i Ti ein harwain” ond “arwain ni”, neu “bydded i Ti’r gogoniant” ond “Gogoniant i Ti”. Fel dywedwyd, nid person niwtral, amhersonol, gerbron Duw yw’r arweinydd ond y mae ef ei hun yn llefaru wrth yr Hollalluog. Priodol yw rhoi ffrâm gadarn i’r weddi er mwyn cynorthwyo’r gynulleidfa i gydweddio. Nodir elfennau angenrheidiol gweddi yn y Ll.G. a gydag ychydig o amrywiaeth yn y gyfrol *Gweddiau yn y Gynulleidfa*, gol. Maurice Loader, Tŷ John Penry.

i. **MAWL** Dechreuir nid gyda’n hanghenion ni ein hunain ond gyda Duw. Ystyr addoli yw “plygu” neu “ymostwng”. Mewn gweddi plygwn i gydnabod Duw yn Arglwydd ein bywydau. Anodd rhagori ar rai o’r Salmau i roi mynegiant i’r mawl gan fod llawer ohonynt yn agor trwy ymhyfrydu ym mawredd Duw. Er enghraifft Salmau 147-50. Ynddynt ceir elfen bwysig arall wrth agor gweddi, sef deisyfiad am wrandawiad. Ee. Salm 86. Dyma enghraifft o weddi gyfoes:

“O Dduw, Mwy yw dy ysblander na’n dychymyg ni,
Grymusach dy nerth na’n deall,
Prydferthach mewn sancteiddrwydd na’n hamgyffrediad,
Mwy gostyngedig mewn cariad nac y gallwn ni obeithio,
Ymhellach y tu hwnt i’n meddyliau nag y gallwn wybod,
Agosach i’n calonnau nag y gallwn deimlo,
Addolwn a gogoneddwn Di mewn gostyngeiddrwydd a chariad.
*Byth bythoedd, Amen”. (*Dick Williams, *Prayers for Today’s Church*).

ii. **CYFFES** Anodd cael gwell patrwm i gyffesu pechodau na Salm 51. Mae patrymau eraill ar gael yn y Llyfr Gweddi Cyffredin neu yng Nghyfrol John Baillie, *Diary of Private Prayer* cyf. Trebor Ll. Evans, *Bore a Hwyr: Gweddiau Personol*, dydd 4 a 18. Dylai cyffes gynnwys cyhoeddiad o rym yr Efengyl. Priodol yw defnyddio geiriau o’r Ysgrythur fel 1 Ioan 8:11, Salm 32:2, 1 Tim. 1:15, i fynegi grym maddeuant Duw.

iii. **DIOLCHGARWCH** mae gan y Cristion restr faith o bethau i ddiolch amdanynt: daioni Duw yn y cread, yn ein hiachawdwriaeth, yn cynnig i ni ei sancteirwydd, yn bendithio’r Eglwys, yn rhoi gobaith am gyflawniad terfynol. Dyma’r pethau pwysig i ddiolch amdanynt - ond fe ellir cynnwys pethau llai dyrchafedig hefyd. Gellir diolch am rywbeth sy’n effeithio ar deulu neilltuol yn yr Eglwys, ond cofier bod angen gofal rhag ofn y gadewir rhywun allan! “Ar ran yr eglwys filwriaethus a buddugoliaethus, yma ac ymhob man, y mynegir diolchgarwch, am hynny, nid yw’n gwbl addas diolch i Dduw am dywydd braf a hithau’n tywallt y glaw bum milltir i ffwrdd” (Richard G Jones, *Groundwork of Worship and Preaching* Epworth, 1980 pen. 7 a 8). Mae cynfas ein diolchgarwch yn eang iawn - o’r cread i’r cyflwyniad - gwaith Duw yw’r cyfan.

iv. **YMBILIADAU/DEISYFIADAU** Mewn oes faterol fel hon mae perygl gwirioneddol i ganolbwyntio ar y pethau materol yn unig yn ein hymbiliadau. Ond gan fod Arglwyddiaeth Duw dros y cread cyfan, a'r Iesu ei hun wedi dysgu ei disgyblion i weddio, "Dyro inni heddiw ein bara beunyddiol ….", fe ddylid deisyfu am iechyd a bwyd a ffyniant. Dylid gwylio rhag dau beth, fodd bynnag. Nid gweddio am freintiau personol i ni a wnawn ond am les yr holl ddynoliaeth a'r eglwys gyfan. Dylem ochel, hefyd, creu'r argraff mai Duw y 'slot machine' yw ein Duw ni, dim ond rhoi ceiniog yn y 'slot' ac fe gawn bopeth yr ydym ei angen.

v. **EIRIOLAETH** Dyma ran hollol angenrheidiol o weddi a rhan sy'n medru bod yn broblem i'r gynulleidfa a'r pregethwr. Yn fynych nid yw'r hyn a ofynnir amdano yn dod yn realiti ac fe bair hynny ysgytiad i ffydd. Am hynny mae'n bwysig bod y rhan hon yn cael ei wneud yn iawn. Wrth eiriol yr ydym yn edrych ar eraill mewn angen megis trwy "lygaid Duw" ei hun. Rhannu yn ei ofal a'i ofid, ei gariad a'i gydymdeimlad, dros y byd. Dylai ein heiriolaeth fod yn gostus i ni ein hunain - fel ag yr oedd i'r Iesu ar y groes yn llefaru, "Dad, maddau iddynt, oherwydd ni wyddant beth y meant yn ei wneuthur" (Luc 23:34). Ni ein hunain yn anad heb, dylai fod yn weithredwyr ein gweddiau. "Y mae Cristionogion yn gweddio am eraill oherwydd dyma ran hanfodol o'r ffordd Gristionogol o fyw" (Neville Ward, op.cit.).

Dylid gweddio am y pethau sydd, yng ngoleuni'r Gair, yn unol ag ewyllys Duw. Er enghraifft, urddas pob dyn fel creadigaeth Duw, heddwch a chyfiawnder, ac yn y blaen. Mae angen doethineb a sensitifrwydd wrth weddio dros y cleifion a'r rhai yn ymyl marw. Ceir detholiad da yn y Ll.G o dan yr adran Gweinidogaeth Ymweld. Gan nad ydym yn gwybod ewyllys Duw yn y mater hwn (a diolch am hynny), doethach yw osgoi gweddi fel hyn:

"Arglwydd, rho wellhad llwyr i'r hen Mrs A. Adfywia hi a'i hiachau o bob salwch. Fel y cyfodaist Lasarus gynt, Arglwydd, dangos dy rym".

A rhywun bron croesi afon angau, amhriodol a dweud y lleiaf, yw gweddi fel hyn. Gwell fyddai:

"Arglwydd, gweddïwn y bydd i'th ras iachusol weithio ym mywyd Mrs A. Cryfha hi mewn corff, meddwl ac ysbryd. Beth bynnag sy'n ei wynebu, cynnal hi trwy dy ras yn gadarn ei ffydd, gan roddi iddi dy dangnefedd".

Dylid gochel y demtasiwn o ddeisyfu ein buddiannau personol ar draul pobl eraill. Mae'r barodi isod yn enwog allan o lyfr David Head, *He Sent Leanness*, td. 22.

"We pray that the down-trodden may take it patiently, that nations with empty larders may prefer starvation to communism, and that all who have been deeply insulted and despised may have short memories …."

Ceisio ewyllys Duw mewn gostyngeiddrwydd yw eiriolaeth ac nid ymgais i'w recriwtio ef i'n hachos ni.

DISTAWRWYDD Y mae lle i ddistawrwydd mewn gweddi ond dylid ei ddefnyddio'n ofalus. Priodol yw rhoi cyfle i'r gynulleidfa weddio'n ddistaw ond fe ddylid rhoi canllawiau iddynt. Er enghraifft, penawdau arbennig i weddio drostynt, personau arbennig y maent hwy am eu henwi yn ddistaw, ac yn y blaen. Ni ddylai'r cyfnod hwn fod yn fwy na munud neu ddau. Gellir crynhoi'r holl weddïau trwy gydadrodd Gweddi'r Arglwydd.

LITWRGI Gellir defnyddio un traddodiadol neu lunio un newydd. Rhoddir cyfle i'r gynulleidfa i ymateb ac felly mae'n bwysig eu bod yn cael copïau yn eu dwylo.

ARBROFI Fel y nodwyd yn narlith 1 mae lle i arbrofi. Lled ddiweddar yw'r ymhlith yr Ymneituwyr o grynhoi'r gweddiau i un weddi hir rhwng y darlleniad a'r bregeth. Yn wir, mae lle i amau a oes angen gweddi hir yn y fan honno oherwydd deisyfiad am oleuni Duw ar y darlleniad o'r Gair ac ar y bregeth a ddylid ei offrymu yno. Ar ôl y bregeth, fel rhan o ymateb y gynulleidfa i'r neges, y dylid lleoli'r weddi hir. Gweddi o ddiolchgarwch ymgysegriad ac eiriolaeth sydd briodol.

Y CYMUN Enw yr eglwys fore arno oedd yr ewcharist. Ei ystyr yw diolchgarwch. Dylai'r weddi cyn y cymun roi mynegiant i'r diolch hwnnw a bod yn un sydd wedi ei saernïo'n ofalus. Yn y litwrgïau traddodiadol y mae adran bwysig sydd yn arwain at y gweithredoedd o fendithio a chymuno. Gelwir yr adrannau hyn yn Sursum Corda, Preffas, Sanctus a Benedictus. Ceir enghreifftiau gwych iawn o'r adrannau hyn yn y gwasanaethau addoliad o Taize. Priodol yw cynnwys gweddi ôl-gymun hefyd (gweler L1.G. am enghreifftiau).

Y DONIAU I'W MEITHRIN WRTH WEDDIO'N GYHOEDDUS

1. Gwybodaeth eang o weddïau ac emynau canrifoedd cred. Ceir detholiad cynorthwyol yn y L1.G ond am un mwy cynhwysfawr gweler *The Oxford Book of Prayer, 1985.* Braint yr arweinydd yw ceisio agor trysorfa enfawr duwioldeb yr oesau i'r gwrandawyr. Gall emynau fynegi profiad o fawredd Duw ac fe ddylid ei defnyddio. Ond gochelwch rhag gorlwytho gweddi â dyfyniadau o emynau.

   Gall gweddiau cyfoes fynegi profiad yn gryno ac effeithiol ambell dro. Ceir detholiadau mewn gwahanol gyfrolau:
   Yr Ysgrythur ei hun yw'r chwarel orau i gyfoethogi ein gweddiau. Roedd yr hen weddiwyr wedi trwytho eu hunain ym mrawddegau ac ymadroddion y Gair ac wedi mwydo eu hunain yn ei seiniau.

2. Byddwch yn gryno ac i'r pwynt. Peidiwch â defnyddio 4 gair lle mae un yn gwneud y tro.

3. Peidiwch â bod ofn defnyddio nodiadau - Mae'r Ysbryd Glân yn bendithio'r paratoadau hefyd. Coel gwrach yw'r syniad fod y weddi sydd wedi ei pharatoi ar bapur yn llai eneiniedig na'r weddi rydd. Arfer i'w gymeradwyo yw defnyddio'n gweddiau yn ein defosiwn personol cyn ei thraddodi'n gyhoeddus.

4. Arwain gweddiau'r gynulleidfa a wneir ond nid yn amhersonol.

5. Gwyliwch y demtasiwn i adrodd gwybodaeth wrth Dduw. Yn ôl y Dr R Tudur Jones, yr oedd gweddiau'r Ymneilltuwyr yn y ddeunawfed ganrif yn hir iawn, oddeutu trichwarter awr, gan eu bod yn cynnwys llawer o wybodaeth am newyddion y dydd! Yn yr oes hon, fodd bynnag, mae'n gwbl bosibl bod y gynulleidfa fod yn gwybod mwy, am faterion y dydd na'r gweinidog.

6. Gochelwch ailadrodd enw'r Arglwydd sawl gwaith mewn brawddeg, 'Does dim yn waeth i greu ymdeimlad o ddiffyg diffuantrwydd na hynny.

7. Mae saith i wyth munud yn ddigon maith i'r weddi hiraf.

DYFALBARHAU MEWN GWEDDI Dysg yr Iesu ei ddisgyblion i ddyfalbarhau mewn gweddi - Dameg y Cyfaill ar Hanner nos (Luc 11: 5-8) a Dameg y Weddw a'r Barnwr (18: 1-8). Felly Paul yn ei lythyrau, ee., 1 Thes 5: 17. Ein hangen mwyaf heddiw yw ysbryd i ddyfalbarhau mewn gweddi, nid yn unig yn bersonol ond hefyd yn y gynulleidfa. Byddwn yn daer yn ei gweddiau!

Llyfryddiaeth Ychwanegol:

Y clasuron Yr Ymarfer o Dduwioldeb, Patrwm y Gwir Gristion, Rheol Buchedd Sanctaidd. (Cofier ddiweddaru'r iaith)
Emrys ap Iwan, *Pregethau.* Pregeth iv yn arbennig
T Glyn Thomas, *Ar Ddechrau'r Dydd* a *Ar Derfyn Dydd*
Brother Lawrence*, The Practice of the Present of God*
Llawlyfr Gweddio. The Prayer Handbook
Charles Elliot, *Praying the Kingdom*, Bryste 1954
Karl Bath, *Prayer and Preaching*, SCM 1964
John Baillie, *Bore a Hwyr*, Tŷ John Penri
Maurice Loader, gol. *Gweddiau yn y Gynulleidfa*, Abertawe 1978
D Morlais Jones & John Gwilym Jones, *Rhagor o Weddiau yn y Gynulleidfa,* Abertawe 1991
H Charles Evans, *Deuwn ac Addolwn,* Abertawe 1977
Brynley Roberts, gol. *Cynnal Oedfa*, Gwasg Pantycelyn
J Neville Ward, The Use of Praying, Epworth 1967.

Llyfrau ar Addoli gan Gyhoeddiadau'r Gair. Yn y blynyddoedd diwethaf cafwyd toreth o lyfrau yn cynnig deunydd ar addoli, yn weddiau, myfyrdodau a phregethau. Nid oes prinder deunydd canmoladwy iawn ar gael at ddefnydd arwain addoliad.

YR EMYN YN YR OEDFA

Gadewch i mi ddweud ar y dechrau yr hyn na fyddwn yn ei drafod. Ni fyddwn yn trafod yr emyn fel llenyddiaeth; ni fyddwn yn dosbarthu emynau yn ôl eu teilyngdod barddonol. Yn hytrach, byddwn yn rhoi cipdrem frysiog ar ddatblygiad yr emyn. Byddwn hefyd yn trafod ffordd y dylid defnyddio emynau mewn oedfaon. Y mae dewis emynau yn ddisgyblaeth sy'n rhagdybio gwybodaeth am natur addoliad.

CIPOLWG HANESYDDOL

Un o nodweddion defosiwn Iddewig a Christionogol yw fod yr addolwr ar delerau â Duw: yn wir, mae'r addolwr yn ymwybodol o agosrwydd Duw a'i fod hefyd yn ei adnabod ac yn gallu ei gyfarch yn bersonol. Er enghraifft, Salm 86. Duw personol yw ac un sy'n dymuno cael ei adnabod yn bersonol. Duw ydyw sy'n cyfarch dyn ac mae'r cyfarchiad yn rhagdybio ymateb. Dyma a geir mewn salm ac emyn. Ymgais dyn i ymateb i'r cyfarchiad dwyfol hwn.

Nid yw'r addolwr yn anghofio mai Duw ydi Duw ac mai creadur yw ef ei hun. Ond rhan o ddaioni Duw yw ei fod yn galw ei greaduriaid (dyn) yn blentyn iddo. Eisoes yn y Salmau fe gawn yr addolwr yn agosáu at Dduw gyda rhyddid a chyda hyfdra:

"Atat ti, Arglwydd, y dyrchafaf fy enaid;
O fy Nuw, ynot ti yr wyf yn ymddiried".

"Arglwydd, clyw fy ngweddi, gwrando ar fy neisyfiad.
Ateb fi yn dy ffyddlondeb – yn dy gyfiawnder".

Dywed yr Apostol Paul mai un o roddion yr Ysbryd i ni yw ein bod yn gallu galw Duw yn "Adda". Ein hargyhoeddiad fel Cristionogion yw fod dyn wedi ei greu i fod mewn perthynas â Duw, a bod hynny'n gwbl hanfodol i'w ddynoliaeth lawn. Yng ngeiriau Catecism Westminster: "Prif ddiben dyn yw gogoneddu hwn y mae fwynhau yn dragywydd". Yn ymhlyg yn y gogoneddu hwn y mae addoli.

A dyfynnu brawddeg o Raglith Llyfr Emynau y Methodistiaid Wesleyaidd (1990):

"Agwedd uchaf addoli ydyw aberth moliant; a'r cyfryngau hwylusaf i gyflwyno'r cyfryw aberth ydynt fydryddiaeth a chân".

Dyma brofiad yr addolwr o Iddew a Christion ar hyd y canrifoedd.

Ar y dechrau, wrth gwrs, emynau'r eglwys Iddewig a ddefnyddiwyd gan Gristionogion ac yn arbennig y Salmau. Ceir cofnod yn Efengyl Marc fod cwmni'r oruwch ystafell wedi canu emyn. Wedi sefydlu swper yr Arglwydd ceir y geiriau hyn:

"Ac wedi iddynt ganu Emyn, aethant allan i Fynydd yr Olewydd".

Mae'n debygol mai yr Hallel a olygir, sef un o blith detholiad o Salmau a genid adeg y Pasg. Salm 136 a'r casgliad 113-118.

Yn gynnar iawn yn hanes yr eglwys cyfansoddwyd y Magnificat, Y Benedictus a'r Nunc Dimittis. Er mai cyfansoddiadau Cristionogol ydynt mae eu gwreiddiau yn ddwfn mewn Iddewiaeth. Nodwn hefyd fod emynau Cristionogol neu rannau o emynau yn cael eu dyfynnu gan Paul yn rhai o'i lythyrau. Er enghraifft, Effesiaid 5:14; 1 Tim 3:16; 1 Tim 6:15 yml. Ond yr enghraifft fwyaf adnabyddus efallai yw Philipiaid 2:6-11. Dywed ffynhonnell o'r drydedd ganrif wrthym (mae'n bosibl mai Hippolytus ydoedd) am "salmau a chaniadau, y rhai o'r dechrau a ysgrifennwyd gan gredinwyr, emynau i'r Crist, Gair Duw, yn ei gyfarch fel Duw".

Erbyn y bedwaredd ganrif 'roedd y defnydd a wneid o'r emyn yn bur gyffredinol. Datblygodd dau fath o emynau; y rhai a gyfansoddwyd i fynegi emosiwn yr addolwr a'r rhai a gyfansoddwyd er mwyn cyflwyno athrawiaethau. Groeg oedd iaith y cyfansoddiadau cynnar hyn ond yn ddiweddarach cyfansoddwyd mewn Lladin.

Wrth gyfeirio at emynau Lladin y bumed ganrif rhaid cydnabod fod lle arbennig i Emrys, esgob Milan (m.397), yn natblygiad yr emyn Lladin. Agorodd gwys newydd yn nhraddodiad yr emyn. Cyfansoddodd emynau athrawiaethol eu cynnwys ond uniongyrchol eu hapêl. Dilyn ei gwys ef a wnaeth yr emynwyr Lladinaidd. Yn y cyfnod hwn y daeth yr emyn fel y cyfryw yn rhan sefydlog o'r gwasanaethau. Canlyniad hyn oedd bod doniau emynwyr yr Eglwys yn cael eu meithrin ac fe gafwyd emynau gwirioneddol angerddol.

Ceir enghraifft yn emyn Venantius Fortunatus (c. 530 – 600) esgob Poitiers, "Vexillia Regis" - Baneri'r Brenin, 'The Royal Banners' o gyfieithiad J M Neale

"The Royal Banners forward go,

The cross shines forth in mystic glow;

Where He in flesh, our flesh who made,

Our sentence bore, our ransom paid." (Gw. Hymns Ancient and Modern).

Cyfieithodd y Parchedig Kenneth Lintern yr emyn o'r Lladin:

"Baneri'r Brenin 'ddaw ymlaen,

Dirgelwch Croes ddisgleiria'n blaen,

Trwy'r hwn Creawdwr cnawd mewn cnawd

A grogwyd ar y pren dan wawd."

Yn ôl Bernard Manning yr oedd J M Neale yn gyfieithydd rhagorol. Ond yn ôl Kenneth Lintern nid yw wedi cadw'n agos iawn at y gwreiddiol. Gwelir nodweddion yr emyn llawn sef, athrawiaeth a defosiwn personol wedi eu plethu.

Pan ddown at y Diwygiad Protestannaidd gwelir i'r Diwygiad hwnnw ddylanwadu'r fawr iawn ar ddatblygiad yr emyn. Cyfansoddodd Martin Luther doreth o emynau yn yr Almaeneg a chyfieithwyd nifer ohonynt i ieithoedd eraill Ewrop.

Yn y Caniedydd ac yng Nghaneuon Ffydd ceir un o emynau enwocaf Luther, "Ein Feste Burg ist unser Gott". Cyfieithwyd gan Lewis Edwards, a sylwer mai Luther a gyfansoddodd y gerddoriaeth yn ogystal.

Cafwyd rhai emynau o waith y Piwritaniaid Cymreig. Er enghraifft Morgan Llwyd, 134 Y Caniedydd. Nac anghofiwn wŷr fel y Ficer Pritchard, awdur "Cannwyll y Cymry", emyn 569. A'r hyglod Edmund Prys, Archddiacon Meirionydd. Yn 1621, cyhoeddodd ei Salmau Cân; printiwyd hwy yn Llundain a chyhoeddwyd hwy gyda'r Llyfr Gweddi Gyffredin. Nid ef oedd y cyntaf i gyfansoddi 'salmau cân'. Yr oedd Sternhold a Hopkins wedi gwneud yr un gwaith yn Lloegr, ac eraill yng Nghymru. Ond llwyddodd ef i gyfieithu'r Salmau ar fesur mwy canadwy na'r gweddill, ac yn ei lyfr cynhwysodd hefyd rai tonau; "y llyfr Cymraeg cyntaf â cherddoriaeth ynddo". (Gwel. Y Bywgraffiadur Cymraeg).

Creadigaeth y ddeunawfed ganrif i bod pwrpas yw'r emyn modern. Ffrwyth y Diwygiad Efengylaidd ydyw. Meddai Rhaglith Llyfr Emynau y Methodistiaid Wesleaidd:

> "Nodweddir pob cyfnod o ddeffroad crefyddol grymus gan sain cân a moliant; ar yr adegau mwyaf ysbrydol yn hanes yr Eglwys y Cyfodai llanw ei mawl uchaf. Cynhyrchodd Diwygiad crefyddol y ddeunawfed ganrif doreth o'r emynau mwyaf cyfoethog ym meddiant yr Eglwys".

O'r braidd na ddywedwn mai dim ond ar adegau o ddiwygiad y cyfansoddir emynau mawr. Ar yr adegau hyn pan ddaw pobl i ymdeimlo'n ddwys ag agosrwydd y Duw personol. Ceir ymdeimlad cryf o gyfiawnder a sancteiddrwydd Duw yn cyd-fynd ag ymdeimlad o ddiffygion yr addolwr yng ngafael pechod yn troi'n rhyfeddod wrth ymdeimlo â mawredd cariad Duw.

Wrth feddwl am emynau'r ddeunawfed ganrif Isaac Watts sy'n dod i'r amlwg. Edrydd Watts ei hun beth oedd ei gymhellion dros gyfansoddi emynau yn ei ragair i'w "Hymns and Spiritual Songs" (1720):

"While we sing the praises of our God in His Church, we are employed in that part of worship, which of all others, is the nearest akin to heaven: and it is a pity that this, of all others, should be performed the worst upon earth".

Geiriau sy'n nodi mor anneilwng oedd emynau yr ail ganrif ar bymtheg. Watts piau'r emyn mawr "When I survey the wonderous Cross" a gyfieithwyd i'r Gymraeg gan William

Williams. Dyma a ddywed Bernard Lord Manning yn ei glasur bychan, *The Hymns of Wesley and Watts*:

*"*If I were asked to compare Watts with Wesley in a Word, I should say, I think, though with great difference, that Watts seems to me to have the greater mind, the wider outlook, the more philosophic approach to human life and to the Christian revelation. He has also, I think, more original poetry in him. Now and then he hits out a greater and more elemental phrase than any I remember in Wesley. But Wesley is the greatest artist. He flies more surely. He crashes far less often …… His book as a whole, far surpasses Watts".

"His book", wrth gwrs, oedd H*ymns for the use of the people called Methodists*, 1780. Meddai Manning eto wrth annerch criw o fyfyrwyr Wesleiaid am y casgliad hwn gan John Wesley o Emynau ei frawd, Charles, "dyma eich gogoniant". Y mae Rhagair John Wesley yn enwog, yn anffodus nid oes gennyf amser i'w ddyfynnu'n llawn:

"So that this book is, in effect, a little body of experimental and practical divinity".

Sylwer ar y geiriau "experimental" a "practical". Nid diwinyddiaeth yn unig a geir ynddo ond profiad byw o'r diwinyddiaeth ar waith. Trefnir yr emynau yn y casgliad nid yn gymaint yn ôl pennau athrawiaethol ond yn ôl profiad yr addolwr o ddod wyneb yn wyneb â Duw personol. Mewn gair dyma gyfuno dwy ffrwd gyfoethog emynyddiaeth y bedwaredd ganrif. Emynau i fynegi emosiwn yr addolwr ac emynau i hyfforddi addolwyr mewn diwinyddiaeth iachus.

Cafwyd mynegiant i wres y Diwygiad Efengylaidd mewn emynyddiaeth Gymreig hefyd, wrth gwrs. Rhaid cydnabod mai "Williams piau'r canu", ond heb anghofio emynwyr talentog eraill megis Ann Griffiths, Morgan Rhys, Dafydd Jones o Gaeo, a Dafydd William. Meddai Gomer Morgan Roberts:

"Williams Pantycelyn oedd prif emynydd y deffroad Methodistiaid yng Nghymru, gellir priodoli llawer o lwyddiant Methodistiaeth Gymreig i'r bri a fu ar ganu ei emynau".

Cyhoeddi casgliadau bychain o emynau a wnaeth Williams, megis *Aleluia, Caniadau ar y Môr o Wydr o Wydr* y torrodd diwygiad grymus yn Llangeitho ym 1762/3 pan gyhoeddwyd ef.

Beirniedir yn aml y Gristionogaeth Efengylaidd hon am ganoli cymaint o sylw ar gyflwr colledig dyn ac ar y modd y gwaredwyd ef nes colli golwg ar agweddau ehangach yr adferiad yng Nghrist. Wrth ganolbwyntio ar y profiad crefyddol yn unig collwyd oblygiadau cosmig y Croeshoeliedig. Y mae peth gwir yn y cyhuddiad hwn. A yw yn wir am William Williams? O edrych ar holl ystod eang ei gynnyrch llenyddol gan gynnwys ei gerdd fawr "Golwg ar Deyrnas Crist" go brin y bod y cyhuddiad yn wir amdano ef.

Nodwedd arall amlwg emynau'r ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yw eu cyfeiriadaeth Feiblaidd gyfoethog. Er enghraifft emynau Ann Griffiths. Dywed John

Thickens: “Nodwn un enghraifft o’r modd y llamir mewn un pennill o rannau o’r Ysgrythur i eraill ohonynt.

Dyma babell y cyfarfod – Ecs 27:21; 29:42; 30:20; 39:40; 40:6-35.

Dyma gymod yn y gwaed – Lef 16:27; 17:11
Dyma noddfa i lofruddion – Num 35:10-28. Cymh Deut 4:41-42
Dyma i gleifion Feddyg rhad – Math 9:12
Dyma fan yn ymyl Duwdod – Ecs 33:21
I bechadur wneud ei nyth – Salm 84:3
A chyfiawnder pur y nefoedd
Yn siriol wenu arno byth – Dichon bod Salm 85 10; Diar 16:15; Es 42:21 wedi llunio’r meddwl hwn yn ei Chalon yn ddiarwybod iddi.

A chofiwn nad oedd y gyfeiriadaeth Feiblaidd yn yr emynau yn mynd i golli ar y gwrandawyr. Yr oeddent yn hyddysg yn eu Beiblau ac ‘roedd yr emynau hyn yn gyfrwng gwirioneddol i ddyfnhau eu haddoliad.

I bod pwrpas yr emynau hyn oedd “litwrgi” cynulleidfaoedd Cymru. Litwrgi yw’r drefn y mae’r eglwys yn rhoi i’w haddoliad. Yr oedd yr emynau hyn yn ffurfio rhyw fath ar Gredo yn arbennig i’r seiadau Methodistaidd. Sylwn hefyd ar nodwedd arall yr emynau mawr hyn; maent yn bersonol iawn. Sôn y maent am brofiadau dyfnaf yr addolwr o dan argyhoeddiad o bechod, yn ei orfoledd yn derbyn maddeuant. Eto, nid yr addolwr sydd yn y canol ond Crist. Nid aros gyda’r hunan a wneir ond ymgolli yng Nghrist. Dyma efallai un gwahaniaeth mawr rhwng emynau’r cyfnod hwn a’r cyfnod modern. Tuedd emynau modern yw canoli ar y “myfi”. Cymharer emyn Williams Pantycelyn ag unrhyw emyn cyfoes. Er bod emyn Williams wedi ei gyfansoddi yn y person cyntaf unigol eto'r echel yw Calfaria a Thywysog nen. Ond yn fy marn i, yr hunan sy’n aros yn y canol yn llawer o’r emynau diweddar.

Y mae llawer mwy i’w ddweud am ddatblygiad yr emyn; dim ond bras gyffwrdd a rhai ffrydiau a waned uchod.

GOSODIAD GWERTH EI DRAFOD

“Emynau ar gyfer y seiadau Methodistaidd a geir gan William Williams ac nid emynau ar gyfer yr Eglwys”.

A throi at *Y Caniedydd*. Mewn sgwrs dywedodd y diweddar Brifathro D Eirwyn Morgan iddo ddarllen *Y Caniedydd* o glawr i glawr ar fwrdd llong wrth groesi’r Iwerydd, a’i fod o’r farn mai gan yr Annibynwyr oedd y llyfr emynau gorau o’r enwadau Cymraeg. Gallwn ymfalchïo yn hynny a chydnabod ein dyled i’r golygyddion. Cytunwn mai llawforwyn moliant cynulleidfa addolgar yw emyn. Ac am Y Caniedydd rhaid dweud ei fod yn llawforwyn addas ar gyfer cynulleidfaoedd o Annibynwyr Cymraeg. Nodwn un peth yn y Rhagair:

“Nid heb achos y bu achwyn ar y newid a fu ar emynau … Lle bu newid ar emyn yn y Llyfr hwn, newid yn ôl i’r geiriad gwreiddiol gan yr awdur ydoedd y rhan amlaf, a phryd arall newid er mwyn cywirdeb iaith ac orgraff.

Yn anffodus, ni lwyddwyd i lynu wrth y rheol hon yn gwbl gyson. Er enghraifft, yr hyn a geir yn llinell olaf emyn mawr Thomas Jones (517) yw:

“Ca’i weled Ef allan o’m cnawd”.

Yr hyn a geir gan yr awdur ei hun yw: “eto’n fy nghnawd”. Atgyfodiad sydd gan yr awdur nid anfarwoldeb. {Yn sicr, ni ddylai un cyfnod newid emynau oherwydd nad yw’r syniadau gwreiddiol yn gydnaws â dealltwriaeth yr oes honno. Ni newidir y Salmau er bod ynddynt syniadau digon gwachul yn aml - e.e. diweddglo Salm 139}. Felly, a yw’r iawn i *Ganueon Ffydd* newid geiriad emyn John Elias i “a’i waed a ylch y galon ddu (yn lle, ‘Ethiop du’) yn lân fel eira gwyn”?

Anghenraid pob llyfr emynau gwerth ei halen yw mynegai llawn. Bu golygyddion *Y Caniedydd* yn ddiwyd iawn yn darparu cyfoeth yn y fan hon a dilynwyd hwy yn hyn o beth gan olygyddion *Caneuon Ffydd.* Amheuthum yw cael mynegai i linell gyntaf pob emyn - sy’n ei gwneud yn rhwydd darganfod emyn arbennig. Ond tra buddiol yw cael mynegai i gynnwys yr emynau hefyd. Mae’r myegair hwn yn fuddiol ac yn ein cynorthwyo i ddewis emynau addas ar gyfer pob achlysur.

Gwelir fod Sylfaen cwbl Drindodaidd i’r themâu hyn. Duw y Tad, Duw y Mab, a Duw yr Ysbryd Glân. Wrth edrych ar thema Duw Dad gwelir mai detholiadau o emynau a geir yn canmol ei Ras, ei Gariad, ei Drugaredd, etc. Cawn ein tywys felly yn union at hanfod Duw ei hun - ei ras a’i gariad. Cynhwysir detholiad o emynau yn yr adran hon sy’n canoli ar ei sancteiddrwydd. Wrth drafod yr Arglwydd Iesu Grist gwelir eto y pwyslais cytbwys yn y themau. Gan mai llyfr emynau enwad Efengylaidd yw hwn ceir ynddo bwyslais digonol ar y Groes a’r Iawn. Ni esgeulusir yr Ymgnawdoliad na Bywyd ac Esiampl, Teyrnas a Brenhiniaeth Iesu.

Gyda chynifer o themau yn ddi-os llithrodd ambell emyn gwan i’r casgliad. Fe’m hatgoffir o eiriau Spurgeon wrth ganmol esboniad maith rhyw Biwritan - “ … and like the far-fetched rarities of Solomon’s Tarshish, there is much gold and silver but there are much apes and pekocks”.

A throi i Fynegai Awduron a Chyfiethwyr yr emynau. Dadlennir un ffaith ddiddorol; cymaint yw dyled Cymru i emynwyr Sir Gâr. Dengys y mynegai hwn pa mor gatholig fu’r dewis. Cawn emynau o bob cyfnod bron yn hanes yr eglwys ac o bod traddociad. Nid llyfr cul ei orwelion yw’r *Caniedydd* er mai llyfr i enwad ydyw. Wrth gwrs, mae *Caneuon Ffydd* yn adlewyrchu yr un traddodiad catholig. Rhwng ei gloriau ceir cyfoeth emynyddiaeth yr Eglwys Gristionogol.

Gwaith i'r gweithdy. Dewis detholiad o emynau addas i'w canu yn yr oedfaon hyn; Oedfa arferol, oedfa'r Pasg, oedfa Nadolig, oedfa Ordeinio.

Gwaith Ymarferol

Gan ddefnyddio mynegai thematig *Caneuon Ffydd* dewiswch emynau addas ar gyfer oedfaon ar y themau canlynol:

Llawenydd, Gobaith, Cenhadaeth, Cariad Crist, Diolchgarwch, Angen y Byd.